



**Gorffennaf 2016**

# **Atodiad B Aseiad o Botensial ar gyfer Ffermydd Solar PV yng Ngwynedd ac Ynys Môn**

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

Gorffennaf 2016



# Asesiad o'r potensial am ffermydd solar ffoltofoltaig yng Ngwynedd ac Ynys Môn

**Adroddiad Terfynol**

**Paratwoyd gan LUC mewn cysylltiad â Carbon Smart  
Gorffennaf 2016**

**Teitl y prosiect:** Asesiad o'r potensial ar gyfer ffermydd solar ffoltofoltaig yng Ngwynedd ac Ynys Môn

**Cleient:** Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn

Fersiwn	Dyddiad	Manylion Fersiwn	Paratowyd gan	Gwiriwyd gan	Cymeradwywyd gan
0.1	08/06/2016	Drafft cyntaf ar gyfer trafodaeth	Maria Grant	Diana Manson	Sarah Young
0.2	30/06/2016	Adroddiad drafft	Maria Grant Diana Manson Helen Troup	Diana Manson	Sarah Young
0.3	05/07/2016	Adroddiad terfynol	Maria Grant Diana Manson Helen Troup	Diana Manson	Sarah Young

Planning & EIA  
Design  
Tirwedd Planning  
Tirwedd Management  
Ecology  
Mapping & Visualisation

LUC BRISTOL  
12<sup>th</sup> Floor Colston Tower  
Colston Street Bristol  
BS1 4XE  
T +44 (0)117 929 1997  
bristol@landuse.co.uk



FS 566056 EMS 566057

Land Use Consultants Ltd  
Registered in England  
Registered number: 2549296  
Registered Office:  
43 Chalton Street  
London NW1 1JD  
LUC uses 100% recycled paper

Offices also in London Glasgow Edinburgh



# Cynnwys

## 1 Cyflwyniad Error! Bookmark not defined.

Cyflwyniad  
Cyd-destun  
Strwythur yr Adroddiad

## 2 Methodoleg Error! Bookmark not defined.

Cyfyngiadau technegol a chynllunio  
Cyfyngiadau technegol ac ariannol  
Adolygiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd

## 3 Canfyddiadau Error! Bookmark not defined.

Cyfyngiadau ehangach a seilwaith lefel uwch  
Blaenoriaethu'r ardaloedd addas

### Atodiad 1

Seilwaith GRhD

### Atodiad 2

Adolygiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd

### Atodiad 3

Canlyniadau Asesiad Llawn

## Tablau

Tabl 2.1: Meini prawf a ddefnyddiwyd yn yr asesiad o addasrwydd

Tabl 2.2 Meini prawf ychwanegol a ystyriwyd ond na chynhwyswyd fel cyfyngiadau

Tabl 2.3: Cyfyngiadau pellach a ddefnyddiwyd

Tabl 2.4 Cyfyngiadau technegol ac ariannol

Tabl 3.1 Ardaloedd Cyfle Graddfa uchaf

Tabl 3.2 Blaenoriaethu'r Ardaloedd Cyfle sy'n weddill

## Maps

Map 2.1: Ardal yr Astudiaeth

Map 2.2: Ardaloedd adeiledig a seilwaith

Map 2.3: Nodweddion naturiol

Map 2.4: Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth

Map 2.5: Treftadaeth a thirwedd

Map 2.6: Goleddf a chyfeiriadedd

Map 2.7: Dosbarthiad Tir Amaethyddol

Map 2.8: Ystyriaethau pellach

Map 2.9: Seilwaith GRhD

Map 2.10: Sensitifrwydd Tirwedd

Map 3.1: Ardaloedd Cyfle

Map 3.2: Ardaloedd Cyfle ar ôl defnyddio cyfyngiadau technegol, ariannol a sensitifrwydd tirwedd

Map 3.3: Ardaloedd Cyfle Graddfa Uchaf ac wedi'u Blaenoriaethu

# 1 Cyflwyniad

## Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynwyd LUC a Carbon Smart i ymgymryd ag asesiad o addasrwydd posibl tir yn ardal cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn ar gyfer datblygu solar ffoltofoltaig ar raddfa fawr.
- 1.2 Prif amcanion yr astudiaeth oedd:
  - Asesu'r potensial a nodi ardaloedd chwilio ar gyfer ffermydd solar ffoltofoltaig (mwy na 0.5MW) yn ardal y Cynllun (gan ystyried cyfres o gyfleoedd defnydd tir, cyfyngiadau amgylcheddol, technegol ac ariannol).
  - Nodi'n glir y rhagdybiaethau y mae'r astudiaeth yn seiliedig arnynt, gan ddarparu sail dystiolaeth gadarn, dryloyw ac amddiffynadwy a fydd yn gwrthsefyll craffu.
- 1.3 Bydd cyflawni'r amcanion hyn yn galluogi'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) i ddyrannu'r ardaloedd posibl mwyaf addas a dichonadwy ar gyfer datblygu ffermydd solar ffoltofoltaig yn y Cynllun Datblygu Lleol, tra'n diogelu lleoliadau a werthfawrogir am eu pwysigrwydd amgylcheddol, tirwedd neu dreftadaeth.

## Cyd-destun

### Diwydiant solar

- 1.4 Mae'r farchnad solar ffotofoltaig (PV) yn y DU wedi tyfu o bron ddim yn 2010 i oddeutu 9.2GW o gapasiti gosodedig erbyn 2016 (digon i bweru 2.2 miliwn o gartrefi Prydain)<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup> Ffynhonnell: DECC.

- 1.5 Ym mis Ebrill 2016, pasiwyd carreg filltir pan ddatgelwyd bod yr haul, am y tro cyntaf, yn darparu mwy o drydan i'r DU o baneli ffoltofoltaig nag o weithfeydd sy'n llosgi glo dros gyfnod 24 awr llawn. Roedd solar yn cwrdd ag ychydig o dan 30 awr gigawat - neu 4% o'r galw cenedlaethol.
- 1.6 Roedd y twf cyflym hwn, a ddigwyddodd yn erbyn cefndir o lynder economaidd, yn mynd â'r DU i mewn i'r deg uchaf o farchnadoedd byd-eang ar gyfer solar ffoltofoltaig. Mae Rhan 2 o Strategaeth Solar Ffoltofoltaig y DU sydd wedi'i chyhoeddi (Ebrill 2014) yn cynnwys targed heb fod yn rhwymol i osod hyd at 20GW o gapasiti solar yn gynnar yn y degawd nesaf. Er y gellid dadlau bod ffocws y Strategaeth ar brosiectau solar ar y to yn hytrach na phrosiectau solar o raddfa fwy ar y ddaear, mae'r olaf yn debygol o fod â rôl barhaus i'w chwarae. Bydd lleoli a dylunio priodol yn parhau i fod yn allweddol.
- 1.7 Hyd yma, gyrwyd llwyddiant solar gan gyfuniad o brisiau cynnyrch yn gostwng – mae paneli solar 80% yn rhatach yn awr nag yr oeddent bum mlynedd yn ôl - ond hefyd gan gymorthdaliadau (y Tariff Cyflenwi Trydan (FIT) a Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (RO)). Dros y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd mecanweithiau cymorth FIT a RO un ai'n cael eu dileu neu'n cael eu lleihau'n ddramatig – gyda'r llywodraeth yn dadlau y dylai'r diwydiant i raddau helaeth edrych ar ôl ei hun tra bod talwyr biliau yn cael osgoi costau diangen. Cymerwyd lle RO gan Gontractau ar gyfer Gwahaniaeth (CfDs) ond ni symudwyd ymlaen nifer o'r cynlluniau a sicrhodd brisiau cytunedig sefydlog o dan y drefn newydd, oherwydd materion hyfywedd.
- 1.8 Er gwaethaf yr anawsterau hyn, meddai llefarydd ar ran yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC):

*"Mae gan solar, niwclear, gwynt ar y môr a nwy siâl i gyd ran bwysig i'w chwarae yn ein cymysgedd ynni yn y dyfodol –*

*mae'r amrywiaeth hon yn hanfodol i sicrhau y gallwn gyflenwi ynni diogel, fforddiadwy a glân ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."*

*"Mae costau solar yn parhau i ostwng ac rydym yn gweithio i greu diwydiant cynaliadwy sy'n cyflawni heb gymhorthdal."*

- 1.9 Ystyrir y cyfyngiadau economaidd ac ariannol i ddatblygu solar ffoltofoltaig yn adran methodoleg (Adran 2) yr adroddiad hwn.

### **Cyd-destun polisi cenedlaethol**

- 1.10 Dywedir bod newid yn yr hinsawdd a diogelwch ynni yn flaenoriaethau allweddol i Lywodraeth y DU. Ar 30<sup>ain</sup> Mehefin 2016, gosododd Gweinidogion reoliadau gerbron y Senedd ar gyfer y 'bumed gyllideb garbon', sy'n rheoli gostyngiadau mewn allyriadau ar gyfer y cyfnod 2028-2032. Mabwysiadodd y Llywodraeth dargedau a fydd angen gostyngiad o 57% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2030. Amcan y gostyngiadau yw helpu'r DU i gyrraedd y targed cyfreithiol rhwymol o ostyngiad o 80% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050, (gan ddefnyddio'r allyriadau yn 1990 fel gwaelodlin).
- 1.11 Yn 2007, cytunodd arweinwyr yr Undeb Ewropeaidd (UE) i fabwysiadu targed rhwymol i'w gwneud yn ofynnol i 20% o ynni'r UE (trydan, gwres a thrafnidiaeth) ddod o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2020. Ymunodd y DU â Chyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy yr UE (y cytunwyd arni'n ffurfiol ym mis Ebrill 2009) a chytunodd i dargedau cyfreithiol rhwymol i gynhyrchu 15% o'n holl ynni (trydan, trafndiaeth a gwres) o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Mae Strategaeth Ynni Adnewyddadwy'r DU yn nodi'r llwybr i'r DU gwrdd â'r targed hwn ac mae'n nodi y bydd angen i 30% o drydan ddod o ffynhonnell adnewyddadwy erbyn 2020.
- 1.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi uchelgais i leihau allyriadau CO<sub>2</sub> yng Nghymru ac i gynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan gynnwys solar. Mae'r polisi ynni, Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012), yn nodi sut y bydd Cymru'n symud o gynhyrchu ynni sy'n seiliedig ar danwydd ffosil i ddefnyddio cymysgedd ehangach o ffynonellau ynni, sy'n rhai adnewyddadwy yn bennaf neu'n isel mewn carbon. Mae

Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Cymru (2010) hefyd yn gosod targed i leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr o 3% y flwyddyn o 2011 o feysydd cymhwysedd datganoledig.

- 1.13 Ystyrir bod y sector ynni a'r amgylchedd yn elfen allweddol sy'n sail i'r ymgyrch i 'Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad newydd'. Mae'n nodi'r ddau brif gyfle i greu swyddi ar gyfer economi gynaliadwy fel cyflenwi effeithlonrwydd adnoddau a bwrw ymlaen â'r agenda carbon isel, gwastraff isel. Gydag ymyrraeth wedi'i thargedu, gobeithir y gall Cymru ennill manteision cystadleuol ac elwa ar y marchnadoedd yn y sector hwn. Amcangyfrifir y gellid cael £50 biliwn o fuddsoddiadau mewn cynhyrchu trydan carbon isel yng Nghymru dros y 10 i 15 mlynedd nesaf.
- 1.14 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) (Argraffiad 8 Ionawr 2016) a'r Nodiadau Cyngor Technegol cefnogol (TAN 12 a TAN 8) a chanllawiau ymarfer, yn nodi nifer o feysydd casglu tystiolaeth a llunio polisi ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel y disgwylir i awdurdodau lleol eu hystyried wrth ddatblygu eu Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel (pennod 12.8 ym Mholisi Cynllunio Cymru).
- 1.15 Mae Adran 12.8.2 Polisi Cynllunio Cymru yn sôn yn benodol am ddefnyddio Pecyn Cymorth Cynllunio ar gyfer Ynni Carbon Isel Adnewyddadwy - Llawlyfr i Gynllunwyr (2015), ac mae'n nodi:
- Dylai polisiâu cynllunio ar bob lefel hwyluso cyflawni'r uchelgais a fynegir yn Ynni Cymru: Newid Carbon Isel a thargedau'r DU ac Ewrop ar ynni adnewyddadwy. Mae'r Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy yn cynnwys rhwymedigaethau penodol er mwyn ei gwneud yn haws mynd ati'n effeithiol i ystyried ffynonellau ynni adnewyddadwy ... Mae'r materion sydd wrth graidd y dyletswyddau hyn yn rhai y bu'r polisi cynllunio yn canolbwyntio arnynt ers tro byd yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, dylai awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr fel ei gilydd dalu sylw penodol i'r canllawiau a geir yn Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy - Llawlyfr i Gynllunwyr.*

1.16 Mae gofynion a disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â gwneud cynlluniau awdurdod lleol ar gyfer yr agweddau hyn fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru:

1.17 Noda Ynni Isel Adnewyddadwy a Charbon (PCC Pennod 12.9.2 a 12.9.3):

*Dylai awdurdodau cynllunio lleol roi arweiniad i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel drwy gynnal asesiad o botensial yr holl adnoddau ynni adnewyddadwy a chyfleoedd ynni adnewyddadwy a charbon isel yn eu hardal, a dylent gynnwys polisiau priodol yn eu cynlluniau datblygu. Anogir awdurdodau cynllunio lleol i gydweithredu er mwyn casglu tystiolaeth fesul ardal is-ranbarthol lle bynnag y bo hynny'n bosibl.*

*Wrth gynnal asesiadau o'r fath a phennu targedau lleol, dylai awdurdodau cynllunio lleol sefydlu sylfaen dystiolaeth sy'n:*

- ystyried y cyfraniad y gall eu hardaloedd lleol ei wneud at ostwng allyriadau carbon a chynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel;*
- cydnabod y bydd sawl gwahanol ffordd o ddefnyddio technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel;*
- nodi'r potensial ymarferol a hygyrch i ddefnyddio adnoddau ynni adnewyddadwy yn eu hardal (gan gynnwys gwres), ac ystyried sut y bydd yr adnodd hwn yn debygol o gael ei ddefnyddio dros gyfnod y cynllun;*
- ystyried yr effeithiau a'r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn sgil datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;*
- ystyried effeithiau cronol datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;*
- ystyried y mecanweithiau tebygol ar gyfer penderfynu ar geisiadau ar gyfer safleoedd, ar sail eu potensial a'u hallbwn gwirioneddol;*
- ystyried materion sy'n ymwneud â chysylltu â'r grid ac â'r rhwydwaith trafndiaeth.*

1.18 Ym mis Rhagfyr 2015, ysgrifennodd y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol yng Nghymru at Aelodau Arweiniol Cynllunio i roi gwybod iddynt am y newidiadau i Adran 12 PCC. Roedd y llythyr hefyd yn annog awdurdodau i lunio polisiau (yn cynnwys dyraniadau

ardaloedd chwilio) ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa awdurdod lleol. Dywedodd:

*"Byddai dynodi ardaloedd o'r fath yn dangos arweinyddiaeth ar lefel leol; rhoi sicrwydd i'r diwydiant ynni adnewyddadwy wrth wneud penderfyniadau buddsoddi; a, drwy'r broses ymgynghori CDLI, yn rhoi llais i gymunedau ynghylch lle y dylai datblygiadau ynni adnewyddadwy gael eu lleoli. Trwy ddynodi'r ardaloedd hyn, gellir arwain datblygiadau i'r lleoliadau mwyaf priodol.*

1.19 Aeth ymlaen i ddweud:

*"Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddiwygiedig o'r Pecyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy i Gynllunwyr. Mae'r pecyn cymorth hwn wedi cael ei ddiweddarau ac mae'n cynnwys adran newydd ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol (ACLI) i asesu'r potensial i ddatblygu ffermydd solar yn eu hardaloedd. Gellir defnyddio'r fethodoleg hon, ynghyd â'r asesiadau tirwedd helaeth a gynhyrchwyd eisoes fel rhan o'r sail dystiolaeth i'r CDLI, i nodi polisiau ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy mewn Cynlluniau Datblygu. Gellir hysbysu'r ardaloedd hyn gan flaenoriaethau lleol ar gyfer ynni adnewyddadwy a chyflenwadwyedd cynlluniau mewn ymgynghoriad â pherchnogion tir a'r diwydiant ynni adnewyddadwy, yr wyf hefyd yn disgwyl iddynt gymryd rhan yn y broses o nodi'r safleoedd mwyaf priodol."*

*"Mae'n hanfodol bod y system gynllunio yn nodi ac yn diogelu ardaloedd sydd â photensial cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar gyfer y tymor hir, waeth beth fo unrhyw benderfyniadau tymor byr ynglŷn â chymorth ariannol a chyfundrefnau rheoleiddio sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth y DU."*

1.20 Mae'r pecyn cymorth diwygiedig yn rhoi cyngor ar sut y dylai'r cyfieithiad rhwng tystiolaeth a pholisiau gael ei gyflawni ac mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd sylw arbennig yn cael ei roi i'r mater hwn pan fydd y CDLIau yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru ar gyfer sylwadau.

1.21 Anfonwyd llythyr Gweinidogol arall i Aelodau Arweiniol Cynllunio ym mis Mawrth 2016, yn ailadrodd pwysigrwydd y mae

Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei osod ar y newid i economi carbon isel. Ailddatganodd y llythyr yr angen i awdurdodau lleol fod yn fwy rhagweithiol wrth ddatblygu polisiau cynllunio lleol cadarnhaol tuag at ddatblygiadau ynni adnewyddadwy drwy strategaethau a dyraniadau gofodol.

### Cyd-destun polisi lleol

- 1.22 Mae Rhaglen Ynys Ynni Môn yn anelu at wneud Ynys Môn yn rym sy'n gyrru ymchwil ynni a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu, gan ddod â manteision economaidd a chymdeithasol i'r Ynys a'r ardal gyfagos. Mae Gwynedd Werdd wedi astudio'r potensial i gynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy wneud y gorau o'r adnoddau naturiol ledled y sir. Mae Gwynedd Werdd, ochr yn ochr ag Ynys Ynni Môn, hefyd yn gweithio gyda cholegau lleol i sicrhau bod hyfforddiant angenrheidiol ar gael i wneud y gorau o ynni adnewyddadwy.
- 1.23 Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLI ar y Cyd) yn rhoi manylion nifer o bolisiau sy'n ceisio hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy, tra hefyd yn rhoi pwys ar yr angen i sicrhau bod y datblygiadau hyn yn cael eu lleoli a'u dylunio'n sensitif.
- 1.24 Mae'r amcanion a pholisiau perthnasol yn y CDLI ar y Cyd yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:
- SO6: Lleihau, addasu a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys hybu cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal)
    - Polisi PS6: Lleddfu ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.
    - PS7 Polisi: Technoleg ynni adnewyddadwy.
    - ADN2 Polisi: Technolegau ynni adnewyddadwy eraill.
  - SO16: Diogelu, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth yr ardal y Cynllun, yn cynnwys ei hadnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad tirwedd ac amgylchedd hanesyddol.
    - Polisi PS16: Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol.

- Polisi AMG5: Diogelu safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol.
- Polisi PS17: Cadw a gwella asedau treftadaeth.

- 1.25 Bydd yr astudiaeth hon a'i hallbynnau yn rhoi sylfaen dystiolaeth gadarn i'r UPCC i ategu dynodi ardaloedd datblygu solar ffoltofoltaig posibl yn y Cynllun Datblygu Lleol.

### Strwythur yr Adroddiad

- 1.26 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:
- **Pennod 2:** yn gosod allan y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr asesiad.
  - **Pennod 3:** yn cyflwyno canfyddiadau'r astudiaeth.
  - **Atodiad 1:** yn darparu gwybodaeth ar y Seilwaith Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (GRhD).
  - **Atodiad 2:** yn crynhoi'r canfyddiadau o'r Adolygiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd.
  - **Atodiad 3:** yn nodi canlyniadau'r asesiad llawn.



## 2 Methodoleg

- 2.1 Cynhaliwyd asesiad o'r tir a allai fod yn addas ar gyfer datblygiad solar ffoltofoltaig. Gwneir y math hwn o asesiad drwy ddefnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) ac mae'n ystyried ystod o gyfleoedd a chyfyngiadau sy'n ymwneud â datblygiad solar ffoltofoltaig. Asesiad desg yw hwn, ac ni wnaed unrhyw ddilysu yn y maes.
- 2.2 Mae Ardal yr Astudiaeth yn cynnwys ardal gynllunio Gwynedd (h.y. nid yw'n cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri) ac Ynys Môn fel y dangosir ar **Fap 2.1**.
- 2.3 Mae'r fethodoleg yn seiliedig ar Daflen K o *Ganllawiau Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Isel Adnewyddadwy a Charbon - Llawlyfr i Gynllunwyr* (Medi 2015) Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn nodi canllawiau ynglŷn â sut y dylai awdurdodau lleol asesu'r potensial ar gyfer solar ffoltofoltaig yn eu hardal.

### Cyfyngiadau technegol a chynllunio

- 2.4 Mae **Tabl 2.1** yn rhestru'r meini prawf a ddefnyddir yn yr asesiad hwn, y cyfiawnhad dros eu cynnwys, a'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd i gynnal yr asesiad. Mae **Tabl 2.2** yn rhestru'r meini prawf a ystyriwyd ar gyfer eu cynnwys, ond a anwybyddwyd. Mae hefyd yn cofnodi y rheswm dros eu dileu o'r asesiad.
- 2.5 Cydgasglwyd pob un o'r haenau a nodir yn **Nhabl 2.1** mewn cronfa ddata ddaearyddol ESRI. Ychwanegwyd yr haenau hyn at fap a'u trefnu yn ôl pynciau.
- 2.6 Cyfunwyd yr haenau mewn GIS gan ddefnyddio 'Uno' er mwyn creu haen sengl o dir 'â chyfyngiadau' a oedd yn anaddas ar gyfer prosiectau ffermydd solar ffoltofoltaig. Gan ddefnyddio GIS, tynnwyd yr ardaloedd anaddas hyn allan o ffin yr ardal o ddi-ddordeb er mwyn nodi'r tir oedd yn weddill, ar ôl defnyddio'r cyfyngiadau.
- 2.7 Mae'r camau a ddilynwyd ar gyfer cam cyntaf yr astudiaeth fel a ganlyn:
- Mapio ardaloedd adeiledig a lleoliadau seilwaith arall.
  - Asesiad lefel uchel o gyfleoedd mewn ardaloedd adeiledig (daeth y cam hwn i'r casgliad nad oedd unrhyw ardaloedd o gyfleoedd mewn ardaloedd adeiledig)
  - Mapio cyfyngiadau amgylcheddol a threftadaeth.
  - Mapio ardaloedd gyda goledf a wyneb wedd anaddas.
  - Mapio ardaloedd Dosbarthiad Tir Amaethyddol anaddas.
- 2.8 Mae'r camau uchod yn gwyro ychydig oddi wrth y drefn a nodir yn Nhabl K gan yr ystyriwyd y byddai'n fuddiol cael gwared ar gymaint o ardaloedd anaddas ag oedd yn bosibl cyn ystyried y gallu gosodedig potensial.
- 2.9 Yn sgil defnyddio'r camau a amlinellir ym mharagraff 2.7, roedd nifer sylweddol o Ardaloedd Cyfle potensial ar gyfer solar ffoltofoltaig yn parhau. Mae'r pecyn cymorth yn glir o ran yr angen i'r asesiad arwain at nifer hylaw o Ardaloedd Cyfle i'w hystyried. Ystyriwyd felly ei bod yn briodol defnyddio cyfyngiadau ychwanegol i leihau'r arwynebedd tir cyffredinol a oedd yn cael ei ystyried.
- 2.10 Mewn trafodaeth gyda'r tîm cleient, dilëwyd y cyfyngiadau ychwanegol a nodir yn **Nhabl 2.3**

**Tabl 2.1: Meini prawf a ddefnyddiwyd yn yr asesiad o addasrwydd**

Paramedr	Rhagbydiaeth	Ffynhonnell data	Cyfiawnhad a nodiadau
<p>Ardaloedd adeiledig <b>(Gweler Map 2.2)</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni fydd gan y mwyafrif helaeth o leoliadau mewn ardaloedd adeiledig unrhyw botensial</li> <li>Dylid ystyried ardaloedd a neilltuwyd ar gyfer tai neu gyflogaeth fel rhai cyfyngedig.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ffiniau datblygu</li> <li>Clystyrau</li> <li>Dyraniadau tai gyda chaniatâd</li> <li>Dyraniadau tai heb ganiatâd</li> <li>Ardaloedd cyflogaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd lleoliad ardaloedd adeiledig yn cyfyngu'n sylweddol ar unrhyw defnydd o ffermydd ffoltofoltaig annibynnol ar raddfa fawr.</li> <li>Awgryma dull Llywodraeth Cymru (LIC) y defnydd o ddata strategol AO i nodi'r ardaloedd hyn. Dangosodd adolygiad trylwyr o'r set ddata Strategol gyfer yr ardal hon nad oedd y set ddata yn addas i'r diben yn y lleoliad hwn (ffiniau yn rhy amrwd ac ddim yn ddigon manwl).</li> <li>Profwyd setiau data eraill, ond cytunwyd mai'r Ffiniau Datblygu a Chlystyrau a ddefnyddir yn y CDLI ar y Cyd i nodi trefi a phentrefi fyddai orau i'w defnyddio.</li> <li>Nododd y tîm cleient ddyraniadau safleoedd ar gyfer tai a chyflogaeth fel cyfyngiadau i'r diben hwn.</li> </ul>
<p>Seilwaith <b>(Gweler Map 2.2)</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Traffyrdd, Ffyrdd A, Ffyrdd B (gyda byffer i amcangyfrif yr ôl troed)</li> <li>Leiniau rheilffordd (gyda byffer i amcangyfrif yr ôl troed)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ardal MapVector Arolwg Ordnans (AO)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Awgryma dull Llywodraeth Cymru (LIC) y defnydd o ddata strategol AO i nodi'r cyfyngiad hwn. Mae'r data hwn yn llinol (ac nid oes ganddo ôl-troed) ac mae ar raddfa 1:250 000. Mae cynhyrchion Arolwg Ordnans eraill ar gael sydd â gwell eglurder ac a ystyrir yn fwy addas ar gyfer yr asesiad hwn.</li> <li>Defnyddiwyd data llinol VectorMap Ardal gyda'r lled canlynol er mwyn amcangyfrif ôl troed (ac i ganiatáu i ardal gael ei dileu): <ul style="list-style-type: none"> <li>Ffyrdd deuol (20m)</li> <li>Ffyrdd sengl (10m)</li> <li>Traciau rheilffordd (15m)</li> </ul> </li> </ul>

Paramedr	Rhagbydiaeth	Ffynhonnell data	Cyfiawnhad a nodiadau
Nodweddion naturiol <b>(Gweler Map 2.3)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ardaloedd coetir</li> <li>Llynnoedd ac afonydd</li> <li>Ardaloedd rhybudd llifogydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ardal VectorMap Arolwg Ordnans</li> <li>Ardaloedd rhybudd llifogydd LIC C1 ac C2</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Awgryma dull Llywodraeth Cymru (LIC) y defnydd o ddata strategol AO i nodi'r cyfyngiad hwn. Mae cynhyrchion Arolwg Ordnans eraill ar gael sydd â gwell eglurder ac a ystyrir yn fwy addas ar gyfer yr asesiad hwn – sef VectorMap Ardal AO sydd â gwell egurder. Yn ychwanegol, mae'r defnydd o'r set ddata hon ar gyfer llynnoedd ac afonydd yn dileu'r angen i wneud rhagdybiaeth am led afon (gan fod y set ddata AO Strategol i afonydd yn llinol ac y byddai angen tybio ôl troed).</li> <li>Ar gyngor yr UPCC, ystyrir bod Ardaloedd C1 a C2 yn cyfateb i ardaloedd rhybudd llifogydd gan y tybir bod y rhain yn cael eu cyfyngu ar y sail mai'r rhain yw'r ardaloedd a ddefnyddir i ddangos y dylid ystyried materion llifogydd yn rhan annatod o wneud penderfyniadau.</li> </ul>
Bioamrywiaeth/geoamrywiaeth <b>(Gweler Map 2.4)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)</li> <li>Ardal Cadwraeth Arbennig Ymgeisiol (ACAy)</li> <li>Safleoedd RAMSAR</li> <li>Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC)</li> <li>Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNL)</li> <li>Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)</li> <li><i>Gwarchodfeydd Natur Morol (GNM) (amherthnasol)</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfoeth Naturiol Cymru</li> <li>Pwyllgor Cadwraeth Natur ar y Cyd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae dull LIC yn tybio nad oes potensial ar gyfer datblygiadau ffermydd solar ffoltofoltaig ar raddfa fawr yn yr ardaloedd dynodedig hyn.</li> </ul>
Treftadaeth <b>(Gweler Map 2.5)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Henebion Cofrestredig</li> <li>Ardaloedd Cadwraeth</li> <li>Safleoedd Treftadaeth Byd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>CADW</li> <li>UPCC</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae dull LIC yn tybio nad oes potensial ar gyfer datblygiadau ffermydd solar ffoltofoltaig ar raddfa fawr mewn Henebion Cofrestredig.</li> <li>Gyda chytundeb yr UPCC, cynhwyswyd Safleoedd Treftadaeth y Byd ac Ardaloedd</li> </ul>

Paramedr	Rhagbydiaeth	Ffynhonnell data	Cyfiawnhad a nodiadau
			Cadwraeth hefyd fel ardaloedd o gyfyngiad.
Tirwedd <b>(Gweler Map 2.5)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>CNC</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae dull LIC yn tybio nad oes potensial ar gyfer datblygiadau ffermydd solar ffoltofoltaig ar raddfa fawr mewn AHNE.</li> </ul>
Goledf a chyfeiriadedd <b>(Gweler Map 2.6)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gogwydd 0-3 gradd: bob cyfeiriadedd yn addas ar gyfer datblygiad</li> <li>Gogwydd 3-15 gradd: dim ond llethrau sy'n wynebu'r de-orllewin i'r de-ddwyrain sy'n addas ar gyfer datblygiad</li> <li>Gogwydd 15 gradd+: cyfyngiad</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Terrain 50 AO</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r rhagdybiaethau yn seiliedig ar ddull LIC.</li> </ul>
Dosbarthiad Tir Amaethyddol <b>(Gweler Map 2.7)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dosbarthiad Tir Amaethyddol (DTA) Graddau 1, 2 a 3a yn cael eu cyfyngu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Data dros dro DTA</li> <li>Cronfa ddata Orau a Mwyaf Hyblyg (BMV) LIC</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai solar ffoltofoltaig graddfa fawr ar y ddaear gael ei leoli ar dir amaethyddol llai cynhyrchiol neu dir a ddatblygwyd o'r blaen.</li> <li>Nid yw data dros dro DTA yn gwahaniaethau rhwng graddau 3a a 3b.</li> <li>Drwy ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, rydym wedi tybio bod Graddau 1, 2 a 3 o'r set ddata dros dro yn cael eu cyfyngu ac eithrio mewn lleoliadau lle mae LIC wedi nodi nad oedd yr ardal yn y gorffennol yn BMV.</li> </ul>

**Tabl 2.2 Meini prawf ychwanegol a ystyriwyd ond na chynhwyswyd fel cyfyngiadau**

Ystyriaeth	Rhesymau dros beidio ei gynnwys fel cyfyngiad
Llinellau pŵer uwchben (400kV) a'r coridor llwybro a ffefrir	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall llinellau pŵer uwchben achosi cysgodi. Fodd bynnag, o ystyried symudiad yr haul drwy'r dydd, byddai'n anodd amcangyfrif ardal o ddylanwad ar gyfer hyn.</li> <li>Ystyri'r y berthynas rhwng y coridor llwybro posibl a'r un a ffefrir ar gyfer llinell uwchben newydd y Grid Cenedlaethol yn nes ymlaen.</li> </ul>

Ystyriaeth	Rhesymau dros beidio ei gynnwys fel cyfyngiad
Gwarchodfeydd RSPB	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tybir y bydd yr ardaloedd adar mwyaf sensitif yn cael eu diogelu gan ddynodiadau bioamrywiaeth eraill. Gallai'r rhain gael eu hystyried yn nes ymlaen wrth flaenoriaethu'r tir sydd ar gael.</li> </ul>

**Tabl 2.3: Cyfyngiadau pellach a ddefnyddiwyd**

Paramedr	Rhagbydiaeth	Ffynhonnell data	Cyfiawnhad a nodiadau
Tirwedd <b>(Gweler Map 2.8)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ardaloedd Tirwedd Arbennig</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>UPCC</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ddynodiad anstatduol sy'n cynnig diogelwch ychwanegol i'r dirwedd. Mae Polisi AMG1 yn y Cynllun Adnau (2015) yn datgan bod 'unrhyw gynnig datblygu yn rhoi ystyriaeth i gynnal, gwella neu adfer cymeriad cydnabyddedig ac ansawdd yr ardaloedd'.</li> <li>Ystyrir bod yr holl ardaloedd a ddynodwyd fel Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn gyfyngedig</li> </ul>
Treftadaeth <b>(Gweler Map 2.8)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol</li> <li>Parciau Cofrestredig, Gosodiadau Hanfodol a Gerddi Cegin</li> <li>Safleoedd Treftadaeth y Byd Ymgeisiol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>CADW</li> <li>UPCC</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodir pwysigrwydd Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol ym mholisi PS17, sydd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod gosodiad yr asedau hyn. Mae pob un o'r ardaloedd hyn yn cael eu hystyried yn gyfyngedig.</li> <li>Cafodd ffiniau drafft ar gyfer safleoedd a ystyrir yn Safleoedd Treftadaeth y Byd posibl eu gwirio o ran gwneud synnwyr yn erbyn yr ardaloedd sy'n weddill.</li> </ul>
Hamdden a Mynediad <b>(Gweler Map 2.8)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tir Pwrpasol Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>CNC</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae datblygu solar ffoltofoltaig ar Dir Mynediad Agored yn debygol o gael effaith niweidiol ar amwynder hamdden yr ardal, gan fod angen ffensio o amgylch y safleoedd hyn am resymau diogelwch. Ystyrir yr holl dir mynediad penodedig o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gyfyngedig.</li> </ul>



## Cyfyngiadau technegol ac ariannol

- 2.11 Mae'r tir sy'n weddill o ganlyniad i ddefnyddio'r cyfyngiadau pellach hyn yn dal yn rhy helaeth o'i gymharu â'r enghraifft o 20-30 Ardal Gyfle a nodir yn y Pecyn Cymorth. Ystyriwyd ei bod yn briodol defnyddio rhai cyfyngiadau hyfywedd ariannol ac economaidd ar lefel uchel i gael gwared ar yr ardaloedd hynny na fyddai'n hyfyw yn economaidd.
- 2.12 Mae lleoli paneli solar yn y lleoliad gorau posibl yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys capasiti a'r costau sy'n gysylltiedig â chysylltu â'r grid drwy'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Lleol (GRhD). Mapiwyd y seilwaith lefel GRhD presennol yn Ynys Môn a Gwynedd, ynghyd â'i gyflwr presennol, sy'n fesur o debygolrwydd a chost cysylltiad – cymerwyd y data hwn o Fap Gwres Cynhyrchu Wedi'i Ddosbarthu SP Energy Networks<sup>2</sup>.
- 2.13 Gan ddefnyddio mapiau o'r seilwaith GRhD, nodwyd y raddfa COG, sef Coch/Oren/Gwyrdd, ar gyfer hyd at bedwar cyfyngiad i bob gorsaf grid, uwch-orsaf ac is-orsaf yn yr ardal o ddiddordeb. Y cyfyngiadau hyn yw:
- llif croes;
  - capasiti cynhyrchu;
  - lefel diffyg (i'r foltedd perthnasol); a
  - chyfyngiadau ehangach.
- 2.14 Ceir rhestr o'r gorsafoedd a ystyriwyd yn **Atodiad 1**.
- 2.15 Yn achos mwy na thri chwarter y gorsafoedd o dan sylw, mae'r graddau "cyfyngiadau ehangach" yn goch, fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn atal y lleoliad rhag cynnal technolegau cynhyrchu newydd<sup>3</sup>.
- 2.16 Dengys **Tabl 2.4** y cyfyngiadau technegol ac ariannol a ddefnyddiwyd i gael gwared ar dir annichonadwy.

<sup>2</sup> [http://www.spenergynetworks.co.uk/pages/sp\\_manweb\\_heat\\_maps.asp](http://www.spenergynetworks.co.uk/pages/sp_manweb_heat_maps.asp)

<sup>3</sup> Roedd y raddfa hon yn gywir ar 28/6/16.

## Adolygiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd

- 2.17 Yn sgil defnyddio'r holl gyfyngiadau uchod, gwelwyd bod **92 Ardal Gyfle unigol yn aros** a oedd yn uwch na'r trothwy maint gofynnol o 1.2ha (neu 3 acer) sydd ei angen i gefnogi datblygiadau o 0.5MW neu fwy.
- 2.18 Gan ddefnyddio'r camau a nodir yn y Pecyn Cymorth, mae darpariaeth o fewn y dull ar hyn o bryd i ddefnyddio cyfyngiadau pellach yn seiliedig ar ddefnydd llymach o'r cyfyngiad Dosbarthiad Tir Amaethyddol neu gyflwyno gwybodaeth LANDMAP i gyfyngu ar yr ardaloedd ymhellach.
- 2.19 Mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, cytunwyd nad oedd cyfiawnhad dros ddiystyru tir yn Nosbarthiad Tir Amaethyddol Gradd 4 (yn unol â'r enghraifft Pecyn Cymorth).
- 2.20 O ystyried y wybodaeth sydd ar gael ynghylch sensitifrwydd tirwedd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygu solar ffoltofoltaig, ystyriwyd ei bod yn briodol edrych ar sensitifrwydd y dirwedd ym mhob Ardal Gyfle er mwyn diystyru unrhyw Ardaloedd Cyfle sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd graddfa sensitifrwydd tirwedd uchel ar gyfer datblygiadau solar ffoltofoltaig
- 2.21 Defnyddiwyd sgoriau o'r Aseiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd<sup>4</sup> a'i atodiad<sup>5</sup> i gynhyrchu tabl cryno o sensitifrwydd tirwedd pob Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) – gan ffocysu ar ardaloedd a oedd ar ôl wedi i'r cyfan o'r cyfyngiadau blaenorol gael eu dileu.
- 2.22 Gweler sensitifrwydd tirwedd bob ACT ym **Map 2.10**. Gweler canlyniadau'r adolygiad hwn yn **Atodiad 2**.

<sup>4</sup> Gillespies (March 2014) *Isle of Anglesey, Gwynedd and Snowdonia National Park: Landscape Sensitivity and Capacity Assessment*. Accessible here: [https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Landscape-Sensitivity-and-Capacity-Assessment-\(DC.020\).pdf](https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Landscape-Sensitivity-and-Capacity-Assessment-(DC.020).pdf)

<sup>5</sup> Gillespies (June 2016) *Field-Scale Solar PV Developments: Gwynedd Addendum to March 2014 Landscape Sensitivity and Capacity Assessment Draft Report*.

- 2.23 Dilëwyd yr Ardaloedd Cyfle yn yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a aseswyd nad oeddynt ag unrhyw gapasiti i ddatblygu solar ffoltofoltaig ar raddfa cae, yn ogystal ag Ardaloedd Cyfle mewn Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a aseswyd fel rhai a oedd â photensial ar gyfer datblygu solar ffoltofoltaig ar raddfa micro yn unig. Diffinnir graddfa micro yn yr Astudiaeth Sensitifrwydd Tirwedd fel datblygiadau llai na 500kW - sy'n is na'r trothwy capasiti at ddibenion yr astudiaeth hon.
- 2.24 Nodir canlyniadau o ddefnyddio'r fethodoleg hon yn yr adran nesaf, ynghyd â'r broses a ddefnyddiwyd i osod safle/blaenoriaethu'r Ardaloedd Cyfle a oedd yn weddill.

**Tabl 2.4 Cyfyngiadau technegol ac ariannol**

Paramedr	Rhagbydiaeth	Ffynhonnell data	Cyfiawnhad a nodiadau
<p>Pellter i'r seilwaith <b>(Gweler Map 2.9)</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim ond ystyried yr ardaloedd o fewn 1km o is-orsafoedd 'gwyrdd' ar gyfer cynhyrchu a 11kV o ddiffygion fel rhai hyfyw.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>SP Energy Networks</li> <li>Ymchwil datblygwyr solar</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni wnaiff datblygwyr solar ond ystyried safle sydd o fewn 1 cilomedr i is-orsaf heb unrhyw raddfeydd coch. Ar ôl mapio'r holl is-orsafoedd yn yr ardal o ddiddordeb, defnyddiwyd y cyfyngiad hwn yn gynnar yn y broses i leihau'r maint o dir a nodwyd. O ystyried bod y seilwaith yn cael ei uwchraddio yn gyson, nid ydym wedi diystyru pob seilwaith â graddfa goch, ond er mwyn blaenoriaethu, dim ond yr is-orsafoedd â raddiwyd yn wyrdd ar gyfer cynhyrchu ac 11kV o ddiffygion a ystyriwyd gennym.</li> </ul>

### 3 Canfyddiadau

- 3.1 Gweler canlyniadau defnyddio pob un o'r cyfyngiadau a geir yn **Nhabl 2.1** a **Thabl 2.3** ym **Map 3.1**. Ar y cam hwn yn y dull, dengys y map bod swm sylweddol o dir â'r potensial technegol ar gyfer datblygu ffermydd solar ffoltofoltaig. O'i gronni, roedd y cyfanswm bron yn 26,000 hectar - neu ychydig dros 15% o'r holl ardal chwilio.
- 3.2 Roedd defnyddio'r cyfyngiad technegol ac ariannol a restrir yn **Nhabl 2.4** yn lleihau arwynebedd y tir yn sylweddol. Roedd yr arwynebedd tir canlyniadol yn 1,818 hectar (ychydig dros 1% o'r arwynebedd chwilio gyfan), a rhannwyd hwn i 92 o barseli ar wahân o dir neu Ardaloedd Cyfle.
- 3.3 O ystyried canlyniadau'r Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd, diystyriwyd 45 o'r Ardaloedd Cyfle hyn ar y sail eu bod naill ai heb unrhyw gapasiti (rhy sensitif) neu dim ond capasiti ar gyfer datblygiadau ar raddfa ficro (llai na 0.5MW). Roedd hyn yn gadael **47 Ardal Gyfle** a oedd angen archwiliad pellach gan ddefnyddio'r ffactorau a nodir isod. Dengys **Map 3.2** yr Ardaloedd Cyfle a gafodd eu diystyru ar sail eu sensitifrwydd a'r Ardaloedd Cyfle a oedd yn weddill, a ddadansoddwyd ymhellach.

#### Cyfyngiadau ehangach a seilwaith lefel uwch

- 3.4 Er mwyn gosod trefn ar y rhestr o Ardaloedd Cyfle, adolygwyd y capasiti yn y seilwaith lefel uwch (uwch-orsafoedd). Mae gorsafoedd grid ac uwch-orsafoedd i gyd yn cael eu cyfyngu'n llym yn Ynys Môn. Mae'r Grid Cenedlaethol wrthi'n cyflwyno uwchraddio i'r cysylltiadau hyn, gyda dyddiad rhyddhau capasiti disgwylidig 2019-2025. Er bod hyn yn o fewn yr amserlen ar gyfer y Cynllun, mae prosiectau cynhyrchu newydd ar y seilwaith hwn eisoes wedi eu contractio, gyda dros 100MW ar y gweill, a fyddai'n cymryd

blaenoriaeth dros unrhyw geisiadau newydd am Ardaloedd Cyfle a nodwyd yn yr astudiaeth hon. Felly, dad-flaenoriaethwyd holl Ardaloedd Cyfle Ynys Môn, gyda'r bwriad o gysylltiad posibl yn nes ymlaen yn y dyfodol. Mae'r seilwaith lefel uwch ym Mhowys a de Gwynedd hefyd wedi'i gyfyngu yn llym gan ryng-gysylltiad Gogledd Abertawe; eithriwyd yr is-orsafoedd hyn hefyd o'r herwydd.

#### Cyfradd seilwaith lefel uwch yn rhaeadru i seilwaith "merch"

- 3.5 Graddiwyd y ddwy uwch-orsaf sy'n weddill (Cei Connah a Thrawsfynydd) yn ôl eu capasiti ar gyfer cysylltiadau cenhedlaeth newydd; mae'r seilwaith "merch" cysylltiedig yn etifeddu'r radd hon. Y sgôr nesaf a ddefnyddiwyd oedd y sgôr a roddwyd gan SP Manweb ar gyfer capasiti cynhyrchu'r is-orsaf, sef y radd ddominyddol. Fodd bynnag pan fo graddfa'r uwch-orsaf yn waeth na'r capasiti cynhyrchu, defnyddiwyd y raddfa is, e.e. mae Abersoch yn cael ei graddio'n wyrdd ar gyfer cynhyrchu gan SP Manweb, ond mae'n bwydo i mewn i uwch-orsaf Trawsfynydd, sydd â chyfyngiad cynhyrchu ar lefel is-orsaf grid, ac felly sy'n cael ei graddio'n oren yn gyffredinol.
- 3.6 Defnyddiwyd y raddfa COG ganlyniadol i gyfyngu ar nifer o leoliadau dan ystyriaeth, o ystyried nifer yr Ardaloedd Cyfle posibl a nodwyd ar gam cynharach; rhoddwyd graddfa COG i bob is-orsaf i helpu blaenoriaethu.

#### Costau cysylltu fel cyfran o gostau cyffredinol y prosiect

- 3.7 Mae goblygiadau ariannol pob Ardal Gyfle yn cael eu hasesu o ran cost o gysylltu a refferniw cynhyrchu posibl. Mae SP Energy Networks yn dyfynnu "trothwy prosiect cost uchel o £200/kW", a gymerwyd fel terfyn uchaf costau cysylltu'r Ardaloedd Cyfle arfaethedig. Ceir methodoleg fanwl<sup>6</sup> ar gyfer costio'r pris cysylltu ar gyfer cynhyrchwyr (a defnyddwyr), fodd bynnag, mae union gost cysylltu'n amrywio o safle i safle, yn dibynnu ar ffactorau

<sup>6</sup> [http://www.spenergynetworks.co.uk/userfiles/file/SPEN\\_connection\\_methodology.pdf](http://www.spenergynetworks.co.uk/userfiles/file/SPEN_connection_methodology.pdf)

megis cyflwr y grid lleol ar adeg y cais, pa gyfran o'r gost sy'n cael ei thalu gan y datblygwr a'r GRhD, cyfranogiad darparwr cysylltiadau annibynnol trydydd parti, neu daliadau oherwydd cystadleuaeth cysylltu.

- 3.8 Ceisiodd y tîm gysylltu â SP Energy Networks, ond heb lwyddiant o fewn amserlen y prosiect hwn. Felly nid amcangyfrifiwyd y costau cysylltu manwl ar gyfer yr Ardaloedd Cyfle arfaethedig. Y cam nesaf fydd gwneud cais am amcangyfrif cyllideb gan SP Energy Networks cyn astudiaeth dichonoldeb neu gais ffurfiol. Byddai angen gwneud costiadau manwl fel rhan o waith dichonoldeb cyn-cais gan ddatblygwr.
- 3.9 Rhagdybiwyd, ar gyfer systemau mwy o faint, y byddai cost cysylltiad yn gyfran lai o gyfanswm costau'r prosiect nag ar gyfer systemau llai. Felly blaenoriaethir ardaloedd mwy o dir gyda sensitifrwydd is, gan fod ganddynt gapasiti ar gyfer system hyd at 5MW, ar gost cysylltiad gymharol is nag ardal lai yn cynnal system lai.

### Ffynonellau reffeniw

- 3.10 Mae DECC yn cynnig tariff cyflenwi trydan ar gyfer gosodiadau ffoltofoltaig annibynnol o hyd at 5MW; hwn yw'r terfyn maint uchaf perthnasol i ffermydd solar ffoltofoltaig newydd. Y ffigwr diwethaf a gyhoeddwyd ar gyfer ffoltofoltaig annibynnol yw 0.15c/kWh (Ion - Mawrth 2019)<sup>7</sup>.
- 3.11 Felly'r cytundebau prynu ynni gyda datblygwyr neu gwmnïau cyfleustodau sy'n cynrychioli'r cyfraniad mwyaf at reffeniw, sef tua 5c/kWh.

## Ardaloedd Cyfle

- 3.12 O fewn yr ardal astudiaeth, a chymryd sensitifrwydd tirwedd i ystyriaeth, nodwyd **47 Ardal Gyfle gyda photensial ar gyfer datblygu**. Er mwyn rheoli'r nifer o Ardaloedd Cyfle dan ystyriaeth, dilëwyd **pob safle dan 2.4ha**, h.y. dim ond y rhai a allai gynnal capasiti o 1MW neu uwch a ystyriwyd. Mae hyn oherwydd bod ffermydd solar capasiti mwy yn fwy deniadol yn ariannol i ddatblygwyr, gan fod costau cysylltu a chostau sefydlog eraill yn cynrychioli cyfran lai o gyfanswm y gost, a'u bod yn cael eu gwrthbwyso gan ffrydiau reffeniw mwy o faint. Roedd hyn yn lleihau'r rhestr i **38 Ardal Gyfle**.

## Gwiriadau Synnwyr Lleol

- 3.13 Y cam olaf oedd cynnal 'archwiliad synnwyr' lleol o'r ardaloedd posibl er mwyn canfod a oedd unrhyw gyfyngiadau sylweddol pellach mewn perthynas â'r safleoedd posibl
- 3.14 Mae'r Tabl isod yn crynhoi'r materion gweddilliol a nodwyd yn yr ardaloedd cyfle potensial:

Rhif Ardal Gyfle Botensial	Mater Allweddol
71 Parc Menai	Mae'r rhan fwyaf o'r ardal bosibl yn cynnwys ardaloedd gerddi Clwstwr Tŷ'n y Lôn. Yng ngoleuni hyn, cafodd ei dileu fel ardal bosibl.
4 Mona	Dilëwyd y rhan o'r ardal oedd tu mewn i Faes Awyr Mona.
36 Ysbyty Bangor	Mae'r rhan fwyaf o'r ardal bosibl yn gae chwarae ysgol. Yng ngoleuni hyn,

<sup>7</sup> [https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2016/04/01\\_april\\_2016\\_tariff\\_table.pdf](https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2016/04/01_april_2016_tariff_table.pdf)



	cafodd ei dileu fel ardal bosibl.
Mater Cyffredinol	Cynhaliwyd adolygiad o'r holl safleoedd potensial i sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod eiddo unigol yn cael ei dynnu allan o'r ardal chwilio botensial. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau oherwydd siâp yr ardal botensial nid oedd hyn yn bosibl.

- 3.15 Gyda dileu 71 Parc Menai a 36 Ysbyty Bangor, lleihawyd y nifer o Ardaloedd Cyfle potensial i 36.

### Blaenoriaethu'r ardaloedd addas

- 3.16 Gweler canlyniadau llawn yr asesiad yn **Atodiad 3**.

### Ardaloedd Cyfle Graddfa Uchaf

- 3.17 O'r Ardaloedd Cyfle a nodwyd oedd â chapasiti o'r Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd, dim ond pedair oedd mewn ardaloedd heb gyfyngiad grid llym ar gyfer cysylltiadau gynhyrchu. Yn nhrefn blaenoriaeth, gweler y rhain yn **Nhabl 3.1** a ddangosir ar **Fap 3.3**.
- 3.18 Nodir bod rhai o'r rhain yn Ardaloedd Cyfle gradd uchaf sy'n ddigon mawr i ddal safleoedd lluosog. Dim ond dangosol yw ffiniau'r Ardaloedd ac nid yw'n golygu y byddai'r cyfan o'r tir a nodwyd o fewn Ardal Cyfle yn cael mantais caniatâd cynllunio. Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r asesiad hwn wedi cynnwys ystyriaeth o effeithiau cronol, y gellir ond eu hasesu'n gywir ar y cam cais cynllunio.

**Tabl 3.1 Ardaloedd Cyfle Graddfa Uchaf**

ID Safle	Is-orsaf, ALI	Graddfa dechnegol a sylwadau	Ystyriaethau maint dablygiad
35	Parc Menai, Gwynedd	GWYRDD Cei Connah – Uwch-grid Pentir; capasiti	Mae'r Asesiad Sensitifrwydd Tirwedd yn dangos efallai y gellid cynnwys gosodiadau ≤2.5MW; maint optimaidd i ddatblygwr

ID Safle	Is-orsaf, ALI	Graddfa dechnegol a sylwadau	Ystyriaethau maint dablygiad
		cynhyrchu	
5	Rhoslan, Gwynedd	OREN Uwch-grid Trawsfynydd; llai o gapasiti cynhyrchu	Mae'r Asesiad Sensitifrwydd Tirwedd yn efallai y gellid cynnwys gosodiadau ≤2.5MW; maint optimaidd i ddatblygwr
7	Rhoslan, Gwynedd	OREN Uwch-grid Trawsfynydd; llai o gapasiti cynhyrchu	Mae'r Asesiad Sensitifrwydd Tirwedd yn efallai y gellid cynnwys gosodiadau ≤2.5MW; maint optimaidd i ddatblygwr
84	Rhoslan, Gwynedd	OREN Uwch-grid Trawsfynydd; llai o gapasiti cynhyrchu	Mae'r tir sydd ar gael yn cyfyngu'r uchafswm gosodiadau i ~600kW.  Cyfran uwch o gost cysylltu, o'i gymharu â chyfanswm cost y prosiect.

### Rhestru'r Ardaloedd Cyfle sy'n Weddill

- 3.19 Mae pob un o'r 32 ardal sy'n weddill mewn seilwaith grid sydd wedi'i gyfyngu'n llym; fodd bynnag, er mwyn blaenoriaethu'r rhain i'w hystyried o fewn y CDLI ar y Cyd, cawsant eu rhestru fel a ddangosir yn **Nhabl 3.2** a ddangosir ar **Fap 3.3**. Mae'r drefn rhestru'n seiliedig ar sensitifrwydd y dirwedd a maint yr ardal bosibl sydd ar gael.

**Tabl 3.2 Blaenoriaethu'r Ardaloedd Cyfle sy'n weddill**

Cyfyngiadau ar Ardaloedd Cyfle	Maint y system	ID Safle
Ardaloedd Cyfle gydag arwynebedd ≥ 12ha gyda sensitifrwydd tirwedd is	5 MW Canolig	3, 4, 6, 10, 16, 19, 26, 27, 28

Cyfyngiadau ar Ardaloedd Cyfle	Maint y system	ID Safle
Ardaloedd Cyfle gydag arwynebedd ≤12ha gyda sensitifrwydd tirwedd is	2.5 – 5 MW Bach i ganolig	34, 37, 39 <sup>8</sup>
Ardaloedd Cyfle with either higher tirwedd sensitivity or ≤6ha	≤2.5MW Small	42, 45, 47, 53, 56, 57, 58, 59, 2, 9, 20, 22, 23, 32, 50, 51, 52, 60, 61, 62

3.20 Rhoddwyd blaenoriaeth i Ardaloedd Cyfle a oedd â capasiti i gynnal system 5MW, gan fod y costau cysylltu yn cynrychioli cyfran lai o'r costau cyffredinol, ac felly'n cael llai o effaith ar hyfywedd y prosiect i ddatblygwr

3.21 Fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.18, nodwyd bod yr Ardaloedd Cyfle dan sylw yn aml yn ddigon mawr i gynnal safleoedd lluosog (hyd at y capasiti a bennir gan yr AST). Fodd bynnag, gan nad yw'r asesiad hwn wedi cynnwys ystyried effeithiau cronol, rydym wedi rhestru Ardaloedd Cyfle yn seiliedig ar eu gallu i gynnal un neu fwy o safleoedd o'r capasiti a roddwyd.

### Casgliad


3.22 I gloi, nododd yr asesiad hwn bedair ardal gyfle graddfa uchaf sydd â'r potensial i ddatblygu ffermydd solar ffoltofoltaig, gan gymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau a restrir yn Nhablau 2.1, 2.3 a 2.4, cyfyngiadau grid, a materion sensitifrwydd tirwedd. Nodwyd 32 ardal gyfle arall, ond mae'r rhain yn destun i gyfyngiadau grid ar hyn o bryd.

3.23 Argymhellir bod y cyfan o'r 36 ardal bosibl a nodwyd yn cael eu dyrannu yn y CDLI ar y Cyd fel ardaloedd chwilio ar gyfer datblygu

ffermydd solar ffoltofoltaig posibl. Dengys **Map 3.3** yr ardaloedd y cynnigir y dylid eu dyrannu yn y CDLI ar y Cyd.

3.24 Mae'n bwysig nodi nad yw adnabod ardaloedd o addasrwydd ar gyfer ffermydd solar ffoltofoltaig yn rhoi datganiad diffiniol o addasrwydd lleoliad penodol ar gyfer solar ffoltofoltaig. Byddai dal angen asesu a dylunio penodol i'r safle a byddai dal angen asesu rhinweddau unigol pob cais. Byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus ar lefel safle i osodiad asedau treftadaeth, ecoleg a materion tirwedd lleol ayb. Bydd yr ystyriaethau cynllunio perthnasol hyn yn cael eu hamlinellu mewn polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

<sup>8</sup> Mae Safle 39 yn pontio dwy Ardal Cymeriad Tirwedd, a gall hanner yr Ardal Gyfle gael ei hystyried yn fwy addas na'r hanner arall.



- Study Area
